

Stori Wesac

Amser maith yn ôl, roedd gan frenin a brenhines fabi bach o'r enw Sidartha. Yn ôl un stori enwog, ymolchodd naw draig ef mewn dŵr pur a cherddodd y Tywysog Sidartha saith cam yn syth. Wrth iddo gymryd pob cam, roedd blodyn lotws yn tyfu yn ôl ei droed. Dywedodd dynion doeth y byddai Sidartha'n tyfu i fod naill ai'n frenin cryf neu'n ddyn sanctaidd a fyddai'n helpu pobl i fod yn hapus. Roedd tad Sidartha eisiau iddo fod yn frenin.

Felly, penderfynodd ei gadw y tu mewn i'w palas hardd fel na fyddai Sidartha'n gweld dim byd a allai darfu arno a gwneud iddo anghofio am fod yn frenin. Roedd Sidartha'n garedig ac roedd yn hoff o anifeiliaid. Un tro, daeth o hyd i alarch oedd wedi cael anaf. Edrychodd ar ôl yr alarch nes iddi wella ac yna gadawodd hi'n rhydd.

Pan oedd yn hŷn, dechreuodd Sidartha feddwl beth oedd yn digwydd yn y byd y tu allan i'r palas. Aeth ef a'i ffrind, Channa, ar bedair taith yn slei bach. Fe welson nhw ddyn a oedd yn hen iawn, dyn sâl a phobl oedd yn drist am fod rhywun yr oedden nhw'n ei garu wedi marw. Gan nad oedd Sidartha wedi gweld y pethau hyn o'r blaen, doedd e ddim yn eu deall. Esboniodd Channa bod y pethau hyn yn digwydd i bawb ac yna roedd Sidartha'n drist. Wedyn, gwelodd ddyn sanctaidd a oedd wedi rhoi ei holl bethau i bobl eraill. Roedd e wedi dysgu bod yn hapus heb lawer o bethau. Roedd e wedi deall sut i fyw! Roedd Sidartha eisiau gwybod sut y gallai ef fod yn hapus fel hyn fel y gallai ddysgu pobl eraill.

Felly aeth Sidartha'n ddyn sanctaidd. Doedd e ddim yn bwyta llawer ac roedd yn byw mewn coedwig ond aeth yn sâl. Deallodd ei bod yn rhaid iddo fwyta'n iawn er mwyn bod yn iach. Yna, rhoddodd merch ifanc laeth a reis iddo. "Diolch," meddai Sidartha. Penderfynodd eistedd o dan goeden Bodi nes ei fod yn deall sut i helpu pobl i fod yn hapus.

Ar ôl dyddiau lawer, gwawriodd ar Sidartha. Deallodd mai'r ffordd i fod yn hapus yw bod yn garedig wrth bobl eraill. Ar ôl hynny, cafodd yr enw Bwda, sy'n golygu 'yr un sydd wedi deffro i'r gwirionedd'.

Stori Diwali

Amser maith yn ôl, roedd tywysog o'r enw Rama. Roedd yn ddoeth ac yn gryf. Roedd ganddo wraig o'r enw Sita a brawd o'r enw Lacshman. Anfonodd brenhines gas Rama i ffwrdd yn bell i fyw yn y jyngl. Gan eu bod nhw'n ei garu, doedd Sita a Lacshman ddim eisiau i Rama fod ar ei ben ei hunan, felly aethon nhw gydag ef.

Pan oedden nhw'n byw yno, daeth Rafana, bwystfil ffyrnig oedd â deg pen, a dwyn Sita. Bu Rama a Lacshman yn chwilio amdani ym mhobman ond doedden nhw ddim yn gallu dod o hyd iddi. Roedden nhw'n drist iawn.

Un diwrnod, addawodd y mwnci dduw grymus, Hanwman, helpu Rama a Lacshman i achub Sita. Hedfanodd i ynys Lanca lle roedd Rafana wedi cuddio Sita. Gwelodd Hanwman hi yn llefain yng ngardd palas Rafana. 'Paid â llefain, Sita,' meddai Hanwman. 'Rwyf i a'm byddin o fwncwn am helpu Rama a Lacshman i dy achub di'.

Felly, adeiladodd Hanwman a'i fyddin o fwncwn bont hir, hir, hir o gerrig, yr holl ffordd dros y môr i'r ynys. Yna, gorymdeithiodd Hanwman, Rama a Lacshman a'r fyddin o fwncwn yr holl ffordd dros y bont. Enillon nhw frwydr yn erbyn Rafana ac achub Sita.

Roedd pawb yn hapus iawn a dywedodd y frenhines gas ei bod yn ddrwg ganddi. Dywedodd pawb y byddai'n rhaid i Rama, Sita a Lacshman ddod adref i fyw a'i bod yn rhaid i Rama fod yn frenin a Sita'n frenhines. Cawson nhw eu cario adref ar beiriant hedfan arbennig, ac roedd pawb yn goleuo'r ffordd â lampau bach o'r enw 'diwas'. Roedd y diwas mor bert, roedden nhw'n edrych fel miliwn o sêr yn yr awyr.

Stori Hanwca (Gŵyl y Cysegru)

Amser maith yn ôl, roedd brenin o'r enw Antiochus. Roedd yn frenin ffyrnig a chas. Dywedodd wrth yr Iddewon nad oedden nhw'n cael byw fel roedden nhw eisiau. Dywedodd na fydden nhw'n cael gweddïo ar Dduw eto. Gorymdeithiodd Antiochus a'i filwyr i'r Deml hardd yn Jerwsalem lle roedd yr Iddewon yn gweddïo ar Dduw. Mynnodd Antiochus a'i filwyr bod yr Iddewon yn gadael y Deml. Roedden nhw'n drist iawn.

Dywedodd dyn dewr iawn o'r enw Jwdas Macabeus: 'Dewch i ni weddïo ar Dduw i'n helpu. Bydd Duw yn ein helpu i beidio â bod yn ofnus ac i feddwl beth allwn ni ei wneud!' Aeth Jwdas Macabeus a rhai o'i ffrindiau, y Macabeaid, i fyw yn y bryniau a'r ogofâu ger Jerwsalem. Roedd hi'n oer ac yn dywyll yn yr ogofâu ac weithiau roedd ofn arnyn nhw ond roedd y Macabeaid dewr yn codi calon y naill a'r llall ac yn cynllunio'n ofalus beth i'w wneud. Ar ôl amser hir iawn, fe wnaethon nhw ennill yn erbyn Antiochus a'i filwyr a gwneud iddyn nhw adael y Deml!

Pan aeth Jwdas a'r Macabeaid i mewn i'r Deml, roedden nhw'n drist iawn o weld bod popeth yn frwnt ac wedi torri. Felly, dyma nhw'n mynd ati i lanhau, sgwrio, sgubo, dwstio a chywiros pob peth.

Roedden nhw eisiau goleuo'r menora, y lamp aur hardd yn y Deml, ond dim ond un jar o olew olewydd pur oedd ar ôl. Digon i'r lamp losgi am ddiwrnod yn unig oedd hynny. Rhoeson nhw'r olew yn y menora a'i goleuo a – wyddoch chi beth? – bu'r olew'n llosgi am wyth diwrnod cyfan! Erbyn hynny, roedden nhw wedi gallu gwneud rhagor o olew.

Byth ers hynny, ar adeg Gŵyl y Cysegru, mae teuluoedd sy'n Iddewon yn cynnau canhwyllau am wyth noson mewn menora arbennig ar gyfer yr ŵyl o'r enw hanwcïa i ddiolch i Dduw am helpu'r Iddewon i wneud i'r olew bara am wyth diwrnod.

Stori'r Nadolig

Amser maith yn ôl yn Nasareth, Galilea, roedd merch ifanc o'r enw Mair yn byw. Dywedodd yr angel Gabriel wrthi y byddai'n cael babi ac y dylai ei alw'n Iesu. Dywedodd yr angel y byddai Iesu'n Fab Duw ac, ar ôl tyfu'n ddyn, y byddai'n gwneud pobl yn hapus ac yn dangos iddynt sut i fod yn garedig i'w gilydd.

Cyn hir, roedd rhaid i Mair a Joseff fynd ar daith hir i Fethlehem. Roedd Mair yn teithio ar gefn asyn a Joseff yn cerdded wrth ei hochr. Pan gyrhaeddodd nhw i Fethlehem doedd dim lle iddyn nhw aros. Gadawodd dyn caredig iddyn nhw aros yn ei stabl. Roedd yn llawn anifeiliaid ac roedd preseb yno yn llawn gwair i'r anifeiliaid ei fwyta. "Dyna dda!" meddai Mair. "Gawn ni roi'r babi i gysgu yn y preseb am nad oes crud gennym!" Y noson honno, cafodd Iesu ei eni. Rhoddodd Mair ddillad amdano i'w gadw'n gynnes a'i roi yn y preseb.

Roedd hi'n noson dawel ac roedd bugeiliaid yn gwylio'u defaid yn y caeau. Yn sydyn, fe welson nhw olau llachar yn yr awyr a dywedodd angyllion wrthyn nhw fod Iesu wedi cael ei eni! Brysiodd y bugeiliaid i'r stabl i weld y baban Iesu.

Ymhell i ffwrdd, roedd Tri Gŵr Doeth wedi gweld seren lachar yn yr awyr. Roedden nhw'n gwybod y bydden nhw'n dod o hyd i'r baban Iesu wrth ddilyn y seren. Aethant ar gefn eu camelod a dilyn y seren yr holl ffordd i'r stabl ym Methlehem.

Rhoddodd y Tri Gŵr Doeth anrhegion gwerthfawr i Iesu – aur, thus (sef persawr arbennig) a myrr (oedd yn cael ei ddefnyddio i wella pobl). Wedyn, roedd y Tri Gŵr Doeth a'r bugeiliaid yn dweud wrth bawb am Iesu. Ers hynny, bob Nadolig, mae Cristnogion yn cofio am Iesu'n cael ei eni.

Stori'r Pasg

Pan dyfodd Iesu'n ddyn, roedd yn dda ac yn garedig wrth bawb. Roedd yn gwneud gwyrthiau ac yn gwella pobl oedd yn sâl iawn. Un diwrnod, aeth i'r anialwch, ar ei ben ei hunan, i weddïo ar Dduw, i gael gwybod beth roedd Duw eisïau iddo'i wneud i helpu pobl. Arhosodd Iesu yn yr anialwch am bedwar deg diwrnod a phedwar deg noson heb fwyta llawer. Ar ôl hynny, dywedodd Iesu wrth y bobl fod Duw eisïau iddyn nhw fod yn dda ac yn garedig. Dywedodd Iesu y dylai pawb ddweud 'Sori' a bod yn ffrindïau os oedden nhw wedi bod yn gas.

Un diwrnod, aeth Iesu i Jerwsalem ar gefn asyn ac roedd y bobl mor falch i'w weld nes eu bod yn chwifio canghennau coed palmwydd yn yr awyr ac yn eu rhoi ar y ddaear. Roedden nhw'n canu ac yn dawnsio ac yn gweiddi hwrê.

Ymhen rhai dyddïau, cafodd Iesu swper arbennig gyda'i ddeuddeg ffrind. Roedd Iesu'n drist iawn. Roedd yn gwybod bod rhywbeth drwg yn mynd i ddigwydd iddo. Dywedodd wrth ei ffrindïau ei bod yn bwysig i bobl garu ei gilydd.

Drannoeth, bu'n rhaid i Iesu farw ar groes, er nad oedd wedi gwneud dim o'i le. Roedd ei ffrindïau'n drist iawn. Rhoddon nhw ei gorff mewn ogof a gwrthio carreg fawr dros geg yr ogof. Ymhen dau ddiwrnod, aeth ffrindïau Iesu i'r ogof – roedd yn wag! Yn fuan wedyn, fe welson nhw Iesu – roedd yn fyw!

Mae'r Groes yn atgoffa Cristnogion fod Iesu wedi marw a bod Duw wedi ei wneud yn fyw eto, mewn ffordd arbennig, i fyw am byth, fel Duw.

Stori Eid-ul-Fitr

Amser maith yn ôl, aeth dyn arbennig iawn o'r enw Mohamed* i ogof ar fynydd. Tra oedd yno, gweddïodd yn daer ar Dduw, neu Allah fel y mae'r Moslemiaid yn ei alw. Roedd Mohamed yn ddyn arbennig gan ei fod yn broffwyd. Dywedodd Allah wrtho sut i fod yn ddyn da ac yn Foslem da. Dywedodd Allah nad oedd oedolion i fod i fwyta nac yfed o doriad gwawr (yn gynnar yn y bore) tan y machlud (gyda'r nos) yn ystod cyfnod Ramadan. 'Ymprydio' yw'r gair am hyn ac mae'n helpu Moslemiaid i wybod beth yw bod yn dlawd ac eisiau bwyd.

Pan fydd lleuad gilgant yn yr awyr, mae'r Moslemiaid yn gwybod bod cyfnod Ramadan drosodd, ac y gall dathliad Eid-ul-Fitr ddechrau.

Dywedodd Allah wrth Mohamed* am ddweud wrth bawb ei bod yn rhaid i oedolion ddeffro'n gynnar iawn yn y bore, cyn iddi oleuo, ar ddiwrnod Eid, a gwisgo'u dillad newydd. Mae llawer o Foslemiaid yn bwyta ffrwyth arbennig o'r enw datys pan fyddan nhw'n deffro gyda'r wawr ar ddiwrnod Eid.

Yna, maen nhw'n mynd i'r mosg i weddïo. Pan fydd Moslemiaid yn gweddïo, maen nhw'n penlinio ar garped bach o'r enw mat gweddi. Maen nhw'n diolch i Allah am bopeth yn y byd ac yn meddwl yn galed iawn sut i ofalu am ei gilydd.

Ar ddiwrnod Eid yn arbennig, mae'n rhaid i Foslemiaid feddwl am helpu pobl sydd heb ddigon o arian i brynu'r pethau y mae arnyn nhw eu hangen. Maen nhw'n rhoi arian, o'r enw Zakat-ul-Fitr, mewn bocsbennig. Ar ddiwedd Eid, maen nhw'n agor y bocsbennig ac yn rhannu'r arian rhwng pobl dlawd. Ar ddiwrnod Eid, mae pobl yn dweud 'Eid Mwbarac' sy'n golygu 'Eid Hapus'.

**Pan fydd pobl sy'n Foslemiaid yn dweud neu'n ysgrifennu enw'r proffwyd Mohamed, maen nhw'n ychwanegu'r geiriau 'Tangnefedd iddo' ar ôl ei enw. Pan fyddan nhw'n ysgrifennu hyn yn Saesneg, maen nhw'n gallu defnyddio ffurf fer, 'pbuh' (peace be upon him).*

Stori Faisaci

Bob mis Ebrill, mae Siciaid yn dathlu Diwrnod Faisaci. Ar y diwrnod hwn, amser maith yn ôl, roedd yr arweinydd Sicaidd, Gobind Rai, eisiau gweld pa mor ddewr oedd Siciaid. Daeth miloedd o Siciaid i'w weld. Roedd Gobind Rai yn ddoeth ac yn ddewr. Roedd y Siciaid yn poeni am fod rhyw bobl ffyrnig a chas eisiau gwneud drwg iddyn nhw. “Bydd Duw yn ein cadw'n ddiogel os gwnewch chi fy helpu i.” meddai Gobind Rai. “Bydd yn beryglus a gallech farw! Pwy sy'n fodlon fy helpu?”

Dywedodd un dyn, “Fe wna i dy helpu di!” Aeth i babell Gobind Rai. Yna clywodd pawb sŵn bwmp uchel. Daeth Gobind Rai allan yn dal ei gleddyf. Roedd pawb yn poeni. Doedden nhw ddim yn gwybod beth oedd wedi digwydd. Bedair gwaith wedyn, gofynnodd Gobind Rai i bobl ei helpu. Aeth pedwar dyn arall i mewn i'r babell, un ar y tro. Bob tro, roedd sŵn bwmp, a daeth Gobind Rai allan yn dal ei gleddyf. Yna, daeth y pum dyn allan o'r babell gyda'i gilydd. Roedden nhw'n gwisgo dillad lliw melyn saffrwm – fel dillad Gobind Rai!

Roedd gan bob un o'r dynion bum peth arbennig a roddodd Gobind Rai iddyn nhw. Yr enw ar y rhain yw ‘Y Pum K’ oherwydd mae eu henwau i gyd yn dechrau â K yn yr iaith Pwnjabi.

Daeth Mata Swndari, gwraig Gobind Rai, â chrisialau siwgr i felysu diod arbennig o'r enw amrit. Trodd Gobind Rai yr amrit mewn dysgl â'i gleddyf gan weddio ac yna cynnigodd yr amrit i bawb i'w rannu.

Meddai Gobind Rai, “Rwyf am alw'r pum dyn hyn yn Panj Piare – y Pump Annwyl. Dyma'r bobl gyntaf i ymuno â theulu'r Sîc Calsa. Maen nhw fel brodyr a byddan nhw'n cadw crefydd y Siciaid yn ddiogel i bawb ohonom!” Yna, gwnaeth y Pump Annwyl amrit ar gyfer Gobind Rai. O'r diwrnod hwnnw ymlaen, galwyd ef yn Gwrw Gobind Sing.

Byth ers hynny, ar Ddiwrnod Faisaci, mae Siciaid yn mynd i'r gwrdwara i gofio am Gwrw Gobind Sing a'r pum dyn dewr ac ymuno â Calsa cyntaf crefydd y Siciaid.

Stori Blwyddyn Newydd y Tsieineaid

Amser maith yn ôl, roedd llygoden fawr, ych, teigr, sgwarnog, draig, neidr, ceffyl, dafad, mwnci, ceiliog, ci a mochyn yn ffraeo'n swllyd iawn!

Roedd bron yn amser Blwyddyn Newydd y Tsieineaid ac roedd pob anifail eisiau i'r Flwyddyn Newydd gael ei henwi ar ei ôl ef neu hi. Clywodd y duwiau y sŵn dychrynlyd a gofyn beth oedd y broblem. Pan esboniodd yr anifeiliaid pam roedden nhw'n ffraeo, penderfynodd y duwiau y dylai'r anifeiliaid gael ras nofio. Byddai'r flwyddyn newydd yn cael ei henwi ar ôl yr anifail a fyddai'n cyrraedd glan arall yr afon gyntaf.

“Ar eich marciau, barod, ewch!” meddai'r duwiau a dyma'r anifeiliaid i gyd yn neidio i mewn i'r dŵr. Sblash!

Cyn hir, aeth yr ych ar y blaen ond gafaelodd y llygoden fawr yng nghynffon yr ych a neidio ar ei gefn heb yn wybod iddo.

Nofiodd yr ych mor gyflym ag y gallai â'r llygoden fawr ar ei gefn ond ... dyfalwch beth ddigwyddodd! Pan oedd yr ych ar fin cyrraedd y lan ac ennill y ras, neidiodd y llygoden fawr dros ei ben a glanio ar y lan! Felly, y llygoden fawr oedd wedi ennill y ras, ac enwodd y duwiau y flwyddyn newydd ar ei ôl ef – Blwyddyn y Llygoden Fawr.

Doedd yr ych ddim yn gallu deall pam nad oedd ef wedi ennill! Ail oedd ef, wrth gwrs. Y teigr oedd yn drydydd, y sgwarnog yn bedwerydd, y ddraig yn bumed, y neidr yn chweched, y ceffyl yn seithfed, y ddafad yn wythfed, y mwnci'n nawfed, y ceiliog yn ddegfed, y ci'n unfed ar ddeg a'r mochyn yn olaf. Dywedodd y duwiau, gan fod pawb wedi gwneud eu gorau yn y ras, byddai pob un o'r anifeiliaid yn cael blwyddyn newydd wedi'i henwi ar eu hól.